# Gwaith Cartref/ Homework

Nadolig Llawen i chi gyd

Brysiwch lawr y grisiau,

Sylwch ar bresantau,

Beic mawr coch ag aur,

Doli ddel i Mair.

Teulu a pherthnasau

A ffrindiau i gyd yn cwrdd,

Mae'r twrci 'leni werth ei weld,

Eisteddwch wrth y bwrdd.

Nadolig Llawen i chi gyd,
I deulu mawr y byd,
Yng nghanol swn y dathlu,
A oes 'na le i'r Iesu,
Neu ydy'r llety'n llawn o hyd?

Brysiwch at y preseb,
Sylwch ar ei wyneb,
Iesu, faban Mair,
Yn y gwely gwair.
Doethion a bugeiliaid yn ymgrymu yno 'nghyd,
Gadewch i ninnau fynd i weld
A phlygu wrth ei grud.